# Toddle Waddles

Cerdyn adroddiad

## Disgrifiad

Mae Toddle Waddles yn rhaglen pedair wythnos o hyd sy'n cynnwys hwyl corfforol ar gyfer y rheini sy'n cymryd eu camau cyntaf i weithgarwch corfforol. Mae'r rhaglen ar gyfer plant deunaw mis i dair blwydd oed i chwarae a chael hwyl tra'n archwilio gweithgareddau ac adnoddau gyda'u rhieni/gofalwyr.

## Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
- Cynllun corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Gweledigaeth Chwaraeon Cymru

## Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Staff Datblygu Pobl Ifanc Actif (AYPD)
- Halo Leisure
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Blynyddoedd Cynnar Cymru

## Adnoddau/galluogwyr

- Offer
- Cynllun sesiwn
- Asesiad risg
- Partneriaeth
- Lleoliad ar gyfer trosglwyddo'r rhaglen
- Marchnata a deunydd hyrwyddo

## Proses

- Ymchwilio rhaglenni tebyg – modelau arfer da
- Ymchwilio i fuddiannau 'toddle waddle' ar gyfer plant deunaw mis i dair oed
- Chwilio am gyfleoedd cyllido i ariannu'r prosiect
- Datblygu nodau a deilliannau'r prosiect
- Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer y prosiect
- Cwblhau asesiadau risg ar gyfer y rhaglen
- Datblygu cynlluniau sesiwn

- Datblygu adnoddau i gefnogi'r prosiect
- Datblygu dulliau a mesurau effaith
- Datblygu deunyddiau hyrwyddo a marchnata
- Adolygu a gwerthuso'r rhaglen, yr hyn sy'n gweithio'n dda a newidiadau i'w gwneud ar gyfer y rhaglen nesaf

## Heriau

- Argaeledd lleoliadau
- Argaeledd hyfforddwyr
- Amseru sesiynau – bu rhaid i rai rhieni adael yn gynnar er mwyn cyrraedd yr ysgol i godi brodyr a chwiorydd hŷn
- Rhai plant ddim yn cymryd rhan lawn yn y rhaglen ac eisiau i'w rhieni eu codi
- Cofnodi effaith gywir y sgiliau a ddatblygwyd

## Allbwn/deilliannau

- Darparu sesiynau i blant gael hwyl tra'n datblygu sgiliau corfforol sylfaenol mewn amgylchedd chwarae rhydd
- Annog ymgysylltiad rhwng y plant a rhiant/gofalwr
- Annog cyfathrebu rhwng teuluoedd wrth chwarae

Chwarae Cymru
Play Wales

www.chwarae.cymru

Elusen cofrestredig, rhif. 1068926 © Chwarae Cymru

Hydref 2024